

**201- Rhif (Cy. )**

**201- No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A487  
(Gellilydan, Gwynedd) (Terfyn  
Cyflymder 40 mya) 201-

The A487 Trunk Road (Gellilydan,  
Gwynedd) (40 mph Speed Limit)  
Order 201-

*Gwnaed* \*\*\*\*\* 201-

*Made* \*\*\*\*\* 201-

*Yn dod i rym* \*\*\*\*\* 201-

*Coming into force* \*\*\*\*\* 201-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Gellilydan, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 201- a daw i rym ar \*\*\*\*\* 201-.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Gellilydan, Gwynedd) (40 mph Speed Limit) Order 201- and it comes into force on \*\*\*\*\* 201-.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

2. (1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weiniogion Cymru o ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8 paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn Gellilydan sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Gellilydan hyd at bwynt 960 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A496 sy'n arwain i Flaenau Ffestiniog.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

\*\*\*\*\* 201-

*Richard Morgan*  
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds.

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road.

### Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road at Gellilydan that extends from a point 100 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Gellilydan to a point 960 metres east of the centre-point of its junction with the A496 leading to Blaenau Ffestiniog.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

\*\*\*\*\* 201-

*Richard Morgan*  
Head of Planning, Asset Management & Standards  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487  
(GELLILYDAN, GWYNEDD) (TERFYN  
CYFLYMDER 40 MYA) 201-**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Yn dilyn ymchwiliad i wrthdrawiadau traffig ffyrdd diweddar, argymhellwyd y cyfyngiad arfaethedig er mwyn gwella diogelwch ar y ffordd drwy arafu gyrwyr wrth iddynt fynd ar y rhan droellog hon o'r A487 y cyfeirir ati'n lleol fel Oakeley Drive ac er mwyn lleihau nifer y digwyddiadau colli rheolaeth a briodolir i gyflymder.

Mae Heddlu Gogledd Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru a Chyngor Cymuned Maentwrog yn cefnogi'r cynnig.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487  
(GELLILYDAN, GWYNEDD) (TERFYN  
CYFLYMDER 40 MYA) 201-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o'r gefnffordd yn Gellilydan sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain i Gellilydan hyd at bwynt 960 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r A496 sy'n arwain i Flaenau Ffestiniog.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 30 Hydref 2019 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol, yn Llyfrgell Blaenau Ffestiniog, Canolfan Maenofferen, Blaenau Ffestiniog LL41 3DL neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1399937.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 20 Tachwedd 2019, a hynny drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1399937. **Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori

**THE A487 TRUNK ROAD (GELLILYDAN,  
GWYNEDD) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER  
201-**

**STATEMENT OF REASONS**

Following an investigation into recent road traffic collisions, the proposed restriction has been recommended in order to improve road safety by slowing drivers as they negotiate this winding section of the A487 known locally as Oakeley Drive and reduce the number of loss of control incidents attributed to speed.

The proposal is supported by North Wales Police, the North Wales Trunk Road Agency and Maentwrog Community Council.

**THE A487 TRUNK ROAD (GELLILYDAN,  
GWYNEDD) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER  
201-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a) and 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to impose a 40 mph speed limit on the length of the trunk road at Gellilydan that extends from a point 100 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road leading to Gellilydan to a point 960 metres east of the centre-point of its junction with the A496 leading to Blaenau Ffestiniog.

During a period of 21 days from 30 October 2019, a copy of the proposed Order, together with a plan and a Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Blaenau Ffestiniog Library, Canolfan Maenofferen, Blaenau Ffestiniog LL41 3DL or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1399937.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1399937, must be sent in writing to the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 20 November 2019. **Please note:** Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information

ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n anghrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael eu hanfon ymlaen at drydydd partiön, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partiön priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government